**COFNODION Y CYNGOR**

Cyfarfod y Cyngor
a gynhaliwyd yn y Brifysgol ar 15 Chwefror 2024

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Yr Athro Edmund Burke, Dr Ama Eyo, Mr Eric Hepburn CBE, Mr Celt John, Syr Paul Lambert, Ms Nyah Lowe, Yr Athro Aled Ll. Jones, yr Athro Oliver Turnbull, Ms Julie Perkins, Mrs Emily Rees, Dr Ian Rees, Mr Rheon Tomos, yr Athro David Viner, yr Athro Tim Wheeler DL, yr Athro Jean White CBE, Mr Paul Wood, Ms Elin Wyn a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd y Brifysgol).

**Ymddiheuriadau**: Mr Atul Devani, yr Athro Andrew Edwards, yr Athro Rhiannon T. Edwards, yr Athro Enlli Thomas a'r Athro Paul Spencer.

**Yn bresennol hefyd:**
Mr Michael Flanagan (Prif Swyddog Gweithredu) a Mr Martyn Riddleston (Prif Swyddog Cyllid).

Hefyd, roedd Dr Christian Dunn, Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol (Cynaliadwyedd), a Mr Lars Wiegand, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Campws ac Ystadau yn bresennol ar gyfer eitem 23.41.

*Cynhaliwyd y cyfarfod yn Ystafell Gynadledda Cledwyn 3, Prifysgol Bangor ac ar Zoom.*

## 23.39 CROESO

Croesawodd Cadeirydd y Cyngor bawb i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor.

Nodwyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Mr Paul Wood, gan ei fod yn ymddeol adeg y Pasg. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Wood am ei ymrwymiad i'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, ac, ar ran yr aelodau, dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad.

## 23.40 MARWOLAETHAU

A. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau diweddar y canlynol:

- Mr Trevor Williams, Aelod o’r Staff Domestig
- Mr Muhsen A M J A Alajmi, myfyriwr yn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg
- Mr Alwyn Owens, Cyn Uwch Ddarlithydd Electroneg, a chyn Bennaeth yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg
- Yr Athro Bruce Wood, Athro Emeritws yn yr Adran Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio
- Mrs Leah Owen, Cyn-fyfyrwraig a Chymrawd er Anrhydedd 2023
- Mr Rory Cramb, Cyn-fyfyriwr, MSc Coedwigaeth Amgylcheddol 2021/22

- Mr Matthew McPartland, Myfyriwr BSc Sŵoleg gyda Phrimatoleg, ac aelod o staff y gwasanaeth Gweinyddu Myfyrwyr
- Mr Peggy Williams, Cyn Ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd (1995 hyd 2000)
- Mr Emyr G. Williams, Cydlynydd Sinema Celfyddydau Pontio
- Yr Athro Phillip Williams, Athro Emeritws, Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon
- Y Parchedig Athro Gareth Lloyd Jones, Athro a Phennaeth yr Ysgol Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol (1998 - 2003) ac Athro Emeritws

Safodd yr Aelodau mewn distawrwydd er cof amdanynt.

**23.41 DULL LLEIHAU CARBON**

A. Dywedodd yr Athro Turnbull wrth y Cyngor fod cynaliadwyedd wrth wraidd popeth y mae'r Brifysgol yn ei wneud, gyda strategaeth gynaliadwyedd ehangach nac adnoddau amgylcheddol neu naturiol. Nodwyd mai Bangor ar hyn o bryd yw'r 18fed prifysgol fwyaf cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig, yn ôl Tabl Cynghrair People & Planet.

Adroddwyd i Lywodraeth Cymru nodi ei hymrwymiad cyfreithiol i gyrraedd sero net o ran allyriadau erbyn 2050 fan bellaf. Cytunodd Prifysgol Bangor hefyd ar 2050 fel targed gyda'r Cyngor. Fodd bynnag, bydd lleihau allyriadau carbon y Brifysgol yn sylweddol a chyrraedd sero net yn y pen draw, yn cyflwyno heriau, ac mae nifer o faterion y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol, a dyma sefyllfa sy'n gyffredin ledled y sector.

Nododd y Brifysgol dri Llwybr Gweithredu Allweddol ar gyfer gweithgarwch â ffocws, a chafodd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n digwydd ym mhob maes:

- Yr Amgylchedd Adeiledig
- Teithio sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol
- Y Gadwyn Gyflenwi

Dywedodd Dr Dunn wrth y Cyngor hefyd i'r Brifysgol osod targed iddi'i hun, fel rhan o'i Strategaeth Gynaliadwyedd, ac mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, i leihau ei hallyriadau carbon yn ddirfawr erbyn y flwyddyn 2025 drwy'r Ymgyrch *25 erbyn 25*. Yn ogystal, roedd yn gweithio ar neilltuo 30% o'r campws i helpu bywyd gwyllt, yn unol ag argymhellion ymgyrch *30 erbyn 30* yr Ymddiriedolaeth Byd Natur.

Gofynnodd Ms Wyn beth oedd cynlluniau'r Brifysgol o ran mannau gwefru ceir trydan, ac a oedd yna gynlluniau i ddarparu mannau gwefru i'r staff. Cadarnhaodd Mr Wiegand i'r Brifysgol sicrhau grant yn ddiweddar i osod 40 o fannau gwefru ychwanegol ledled yr ystâd, ac o ran ei fflyd mae 80% o'r cerbydau bellach yn rhai trydan. Nododd y Prif Swyddog Cyllid hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i gynnig cynllun aberthu cyflog i staff brynu ceir trydan.

Gofynnodd yr Athro Viner y cwestiynau canlynol:

- Cadarnhaodd Mr Wiegand fod allyriadau fferm y Brifysgol wedi'u hymgorffori yn yr ystadegau a gyflwynwyd.
- Cadarnhawyd bod y Brifysgol yn prynu ei hynni trwy gonsortiwm ynni Tec, a bod opsiwn i brynu ynni gwyrdd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n ymddangos bod digon o ddiddordeb gan y sector i'w wneud yn opsiwn ymarferol.
- Ni chymharodd y Brifysgol allyriadau per capita'r Brifysgol eto, ond cadarnhaodd Mr Wiegand y bydd y Brifysgol yn ystyried hynny.

Croesawodd Mrs Rees y newyddion bod y Brifysgol yn cyflwyno cynllun aberthu cyflog i brynu ceir trydan a gofynnodd i'r Brifysgol ystyried gweithgareddau nad oes gwerth ariannol iddynt ond a allai fod o werth o ran enw da a/neu'r amgylcheddol.

Cododd Dr Eyo fater myfyrwyr gyda theuluoedd sy'n byw i ffwrdd o Fangor, a sut mae'r Brifysgol yn mynd i'r afael â hyn.

Adleisiodd Ms Lowe y pwyntiau a wnaed, a chroesawodd y cynnydd a wnaeth y tîm cynaliadwyedd eisoes yn enwedig o ran ymateb i adborth y myfyrwyr. Dywedodd Ms Lowe wrth y Cyngor hefyd fod Undeb y Myfyrwyr yn ymrwymo i Wobr yr Effaith Werdd.

Wrth ateb cwestiwn gan Mr Tomos, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod y Brifysgol yn bwriadu cynnal diwrnod agored i gyflenwyr lleol. Yn ogystal, dywedwyd bod rhwydwaith Prif Swyddogion Ariannol Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda HEFCW i ddarparu cyllid ar gyfer mentrau datgarboneiddio, a'r gobaith yw y bydd hwnnw ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

I gloi'r sesiwn cadarnhaodd yr Is-Ganghellor fod cynaliadwyedd wrth wraidd strategaeth 2030 y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn safle 64 ar hyn o bryd yn Rhestrau Cynaliadwyedd y Byd, yn ogystal â bod yn y categori dosbarth cyntaf yn rhestrau'r Bobl a'r Blaned.

Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i bawb a gyfrannodd at y sesiwn, a chroesawodd y diweddariad a gafwyd, a nododd ei bod yn galonogol clywed am y cynnydd a wnaed.

## 23.42 DATGAN BUDDIANNAU

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgelu pob buddiant personol, ariannol neu fanteisiol mewn unrhyw fater a gaiff ei ystyried yn y cyfarfod cyn ystyried y mater hwnnw.

B. Ni ddatganwyd dim buddiannau yn y materion sydd ar yr agenda.

## 23.43 COFNODION

A. **Cadarnhawyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 a 28 Tachwedd 2023.

B. Darparwyd cofnod gweithredu sy'n nodi cynnydd holl gamau gweithredu'r Cyngor sydd heb eu cwblhau. Nododd y Cyngor yr adroddiadau o gynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

**Pontio i CTER (Cofnod 23.19)**

Tynnodd y Cadeirydd sylw at ddatganiad Llywodraeth Cymru y byddai'r pontio o HEFCW i CTER bellach yn digwydd ar 1 Awst 2024.

*Ymunodd Dr Ian Rees â'r cyfarfod*

**[Materion Cyfyngedig (cofnod 23-27)]**

**Amcanion yr Is-Ganghellor (cofnod 23.28B)**

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Is-Ganghellor ar lwyddo yn ei arholiad Cymraeg Lefel 1 gyda marciau llawn.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (cofnod 23.07)**

Adroddodd y Cadeirydd iddi hithau a'r Is-Ganghellor gyfarfod â'r Prif Weithredwr, a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ogystal, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau barti, a fyddai'n ymgorffori cyfleoedd i ddarparu profiad gwaith y tu allan i feysydd iechyd a meddygaeth.

**Adroddiad Meincnodi Tribal (cofnod 23.20)**

Gofynnodd Mr Tomos am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y cafodd y data a gynhyrchwyd gan Adroddiad Meincnodi Tribal, a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf, ei drosi'n feysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi. **Cytunwyd** y caiff rhagor o wybodaeth am hynny ei darparu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**[Materion Cyfyngedig]**

C. Nodwyd diweddariad diweddaraf Cynllun Gwaith y Cyngor.

## 23.44 DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD

A. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ynghylch ei gweithgareddau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Ffioedd y Myfyrwyr**

Ar y cyd ag Is-Gangellorion a Phrifysgolion Cymru, bu Cadeiryddion Cynghorau Prifysgolion Cymru'n rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i godi lefel ffioedd yng Nghymru. Cadarnhwyd mewn datganiad diweddar gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg y byddai ffioedd yng Nghymru yn codi hyd £9,250, sy'n newyddion da, ac yn hirddisgwyliedig.

**Gwobr Arian Athena Swan**

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Brifysgol, ac yn arbennig yr Athro Morag Mcdonald a'i thîm, ar ennill Gwobr Arian Athena Swan. Roedd y Wobr yn gydnabyddiaeth o'r gwaith caled a wneir yn y Brifysgol ymhob maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Y Brifysgol yw'r ail yng Nghymru, ac un o ddim ond 40 yn y Deyrnas Unedig i ennill y Wobr.

Nododd yr Is-Ganghellor fod y Wobr yn gyflawniad gwych, a oedd yn ymwneud ag egwyddorion, gwerthoedd ac ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**Llwyddiant Cyn-fyfyrwraig**

Hysbyswyd y Cyngor o'r newyddion diweddar y cafodd cyn-fyfyrwraig o'r Brifysgol, Carmen Smith, ei chadarnhau fel aelod ieuengaf Tŷ'r Arglwyddi. Ms Smith yw aelod enwebedig Plaid Cymru, ar ymddeoliad yr Arglwydd Wigley o Dŷ'r Arglwyddi.

**140 Dathliadau**

Cynhwyswyd amserlen ddiweddaraf y digwyddiadau a drefnwyd ar gyfer pen-blwydd y Brifysgol yn 140 oed er gwybodaeth i aelodau'r Cyngor. Yn arbennig felly, amlygwyd y Cinio Gala fis Hydref, a chyngerdd Syr Bryn Terfel fis Tachwedd.

**Maniffestos y Pleidiau Gwleidyddol ar Addysg**

Yn sgil cwestiwn gan Syr Paul Lambert, cadarnhaodd y Cadeirydd y bu maniffestos addysg posibl y pleidiau ledled y sbectrwm gwleidyddol, yn destun sgwrs mewn cyfarfod diweddar o Gadeiryddion Gweithredol Prifysgolion y Deyrnas Unedig. Roedd yn amlwg y dylai Cadeiryddion ac Is-Gangellorion fanteisio ar bob cyfle i drafod polisïau posibl gydag Aelodau Seneddol ac Aelodau Senedd lleol. Cadarnhaodd yr Is-Ganghellor hefyd fod Prifysgolion Cymru yn ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol.

**23.45 DIWEDDARIAD YR IS-GANGHELLOR**

A. Rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariadau i'r Cyngor am nifer o feysydd allweddol.

**23.46 MATERION CYFYNGEDIG**

**23.47 MATERION ADDYSG A PHROFIAD MYFYRWYR**

A. **Diweddariad ar Ddosbarthiadau Graddau 2022/23**

Dywedodd yr Athro Callow wrth y Cyngor y byddai'r aelodau fel arfer yng nghyfarfod mis Chwefror yn cael gwybodaeth am ddosbarthiad y graddau. Fodd bynnag, nid yw data HESA, y mae'r adroddiad yn seiliedig arno, ar gael eto. Y gobaith oedd y byddai'r data ar gael fis Ebrill, a gellir dod ag adroddiad i gyfarfod mis Mai. Atgoffwyd y Cyngor ei fod wedi derbyn diweddariad ar ganlyniadau graddau yng nghyfarfod mis Tachwedd, ac roedd yr Athro Callow yn falch o adrodd bod yr ymyriadau a welir yn y cynllun gweithredu wedi'u rhoi ar waith.

B. **Dal Gafael ar Fyfyrwyr**

Cyflwynodd yr Athro Callow Adroddiad Dal Gafael ar Fyfyrwyr 2022/23. Nodwyd bod y ffactorau sy'n ymwneud â dal gafael ar fyfyrwyr a'r cynnydd cysylltiedig o'r naill flwyddyn astudio i'r llall yn amlochrog a gallant adlewyrchu amgylchiadau unigryw. Fodd bynnag, fel model cyffredinol, gwelwn fod dal gafael ar fyfyrwyr yn cynnwys tri ysgogydd, sef profiad myfyrwyr, perfformiad academaidd myfyrwyr a staff, iechyd a llesiant myfyrwyr. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r rheini'n gwbl annibynnol ar ei gilydd.

Adroddwyd bod Adroddiad Dal Gafael ar Fyfyrwyr 2022/23 yn tynnu sylw at y ffaith bod y Brifysgol wedi gwella 4% ar ei pherfformiad o ran nifer yr Israddedigion Cartref na lwyddwyd i ddal gafael arnynt, ac i'r ffigwr ostwng o 17% hyd 13%, gan ragori ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol y Brifysgol (gwelliant o 1.5%). Nodwyd i'r gwelliant o 4% arwain at ddal gafael ar 77 o fyfyrwyr yn ychwanegol o'i gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, mae methiant i ddal gafael ar israddedigion rhyngwladol wedi cynyddu ymhellach o 1% i 18%, sy'n cyfateb i golli 3 myfyriwr o'i gymharu â'r llynedd. O ran Ôl-Raddedigion Hyfforddedig, bu gostyngiad yn nifer y rhai na lwyddwyd i ddal gafael arnynt: yn fyfyrwyr cartref (10%) a myfyrwyr rhyngwladol (3%). Arweiniodd y gwelliannau at ddal gafael ar 48 o fyfyrwyr cartref a 44 o fyfyrwyr rhyngwladol yn ychwanegol o'i gymharu â'r llynedd.

Wrth ateb cwestiwn gan yr Athro White, nododd yr Athro Callow fod ganddi ddata a oedd yn mapio myfyrwyr a oedd yn gyntaf yn eu teulu, a'r rhai na chyflawnodd raddau mynediad DDD ac a ddaeth drwy'r broses glirio. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw gydberthyniad rhwng y ddau ffactor.

**Nododd** y Cyngor y diweddariadau ynghylch dal gafael.

*Yr Athro Callow yn gadael y cyfarfod.*

## 23.48 ADRODDIAD STRATEGOL UNDEB Y MYFYRWYR

A. Cyflwynodd Ms Lowe a Mr John adroddiad ynghylch y gweithgareddau a fu ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Tynnwyd sylw at y canlynol yn benodol:

- Mae lle wedi'i nodi yn Undeb y Myfyrwyr ar gyfer Man Cwiar a byddai'r lle’n cael ei lansio'n fuan.
- Daeth nifer dda i’r caffi atgyweirio, a digwyddiad ffeirio dillad, a'r bwriad oedd parhau i gynnal y digwyddiadau hynny.
- Caiff etholiadau’r Swyddogion Sabothol eu cynnal dros yr wythnosau nesaf, a'r gobaith oedd y byddai diddordeb mawr ymhlith y myfyrwyr.
- Parhaodd Undeb y Myfyrwyr i redeg ymgyrch newydd Dydd Mawrth Dweud. Hyd yma cynhaliwyd 5 digwyddiad, a chasglodd Undeb y Myfyrwyr bron i 1000 o ymatebion oddi wrth y myfyrwyr yn y digwyddiadau hynny.
- Cynhaliwyd digwyddiad dathlu Dydd Nadolig gyda’r nod o ddarparu lle i fyfyrwyr, yn benodol myfyrwyr rhyngwladol sy’n aros ym Mangor dros y gwyliau. Roedd 90 o fyfyrwyr yn bresennol ar y diwrnod, a daeth rhai â’u teuluoedd i’r digwyddiad.
- Yn sgil adborth Undeb y Myfyrwyr, bu gwasanaethau’r myfyrwyr yn gweithio gyda ni mewn partneriaeth i lunio taflen arddulliau ar ffurf cerdyn busnes ac iddo'r nod o roi gwybodaeth i fyfyrwyr ynglŷn â chysylltu â'r holl wasanaethau cefnogi allweddol ledled y Brifysgol.
- Mae’r ymgyrch iechyd rhywiol sy’n parhau dros flwyddyn yn mynd rhagddi o hyd, gyda’r nod o godi ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd rhywiol yn ardal Bangor a diddymu’r stigma sy’n gysylltiedig â materion iechyd rhywiol a cheisio cefnogaeth.

Gofynnodd yr Athro White a oedd digwyddiadau hefyd yn cael eu cynllunio at wyliau diwylliannol eraill, a chadarnhaodd Ms Lowe y caiff digwyddiadau eu cynnal adeg y Pasg ac Eid Mubarak.

**[Materion Cyfyngedig]**

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Ms Lowe a Mr John am ddiweddariadau ac adroddiadau llawn gwybodaeth, a chroesawodd yr adborth ar y berthynas waith gadarnhaol barhaol gyda'r Brifysgol ar nifer o faterion.

## 23.49 MATERION CYFYNGEDIG

## 23.50 PWYLLGOR MATERION Y GYMRAEG

A. **Nodwyd** adroddiad cyfarfod Pwyllgor Materion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2023 (sydd ynghlwm yn Atodiad IV copi swyddogol y Cofnodion).

**Cytunwyd** y dylai aelodau'r Cyngor dderbyn yr adroddiad a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor Materion y Gymraeg gan Gyfarwyddwr Canolfan Bedwyr, ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg Prifysgol Bangor.

B. Wrth ateb cwestiwn gan Syr Paul Lambert, nodwyd bod cefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu astudio o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol. Yn ogystal, roedd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysicach fyth i fyfyrwyr oedd yn dilyn rhai rhaglenni e.e. mewn iechyd neu

addysg.  Ategodd Ms Wyn y farn honno, a nododd fod yna fudd cadarnhaol mewn disgyblaethau eraill hefyd, megis busnes, i fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 23.51 MATERION CYFYNGEDIG

## 23.52 FFORWM YMGYSYLLTU AR Y CYD

**Nodwyd** adroddiad cyfarfod y Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 (ynghlwm fel Atodiad VI wrth gopi swyddogol y Cofnodion).

## 23.53 Y PWYLLGOR POBL A DIWYLLIANT

A. **Nodwyd** adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd 8 Chwefror 2024 (sydd ynghlwm yn Atodiad VII copi swyddogol y Cofnodion).

B. Ar argymhelliad y Pwyllgor, y Cyngor

- **a gymeradwyodd** y Concordat Ymchwil Blynyddol, a oedd ynghlwm wrth y cofnodion (cofnod 72).

- **a gytunodd** i ddiswyddo'r staff y daw eu contractau cyfnod penodol i ben rhwng 1 Ebrill - 30 Mehefin 2024 trwy golli swyddi oni fydd cyfleoedd cyflogaeth eraill addas (cofnod 78).

## 23.54 SELIO

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio'r dogfennau a restrir yn Agendwm 12.

## 23.55 ORGANOGRAM

**Nododd** y Cyngor yr Organogram a ddarparwyd a oedd yn disgrifio strwythur y Bwrdd Gweithredol, a'u hadroddiadau uniongyrchol.

## 23.56 SYLWADAU CYN CLOI

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gyfarfod llawn gwybodaeth a chynhyrchiol, ac am gyflawni nifer o faterion allweddol.  Diolchwyd i'r tîm cyfieithu am eu cymorth.